

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mawrth 2023 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 – 13.30 0300 200 6565
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 – 09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.30)

2 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau iaith

(09.30 – 10.30)

(Tudalennau 1 – 18)

- Mícheál Ó Foighil, Bainisteoir Lurgan, Coláiste Lurgan
- Lowri W. Williams, Cyfarwyddwr Strategol, Comisiynydd y Gymraeg

Dogfennau atodol:

- Briff Ymchwil: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
- Tystiolaeth gan Comisiynydd y Gymraeg: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

Egwyl

(10.30 – 10.40)



3 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: sesiwn dystiolaeth gyda Chwnsler Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd

(10.40 – 11.40)

(Tudalennau 19 – 22)

- Denise McQuade, Conswl Cyffredinol Iwerddon i Gymru

Dogfennau atodol:

- Tystiolaeth gan Gonswl Cyffredinol Iwerddon: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig)

Egwyl

(11.40 – 11.50)

4 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: sesiwn dystiolaeth gyda'r rheini sy'n derbyn cyllid yr UE

(11.50 – 12.50)

(Tudalennau 23 – 29)

- Gwyn Evans, Rheolwr Cronfa Allanol, Cyngor Sir Benfro
- Steven Conlan, Athro Bioleg Foleciwlaidd a Bioleg Gellog, Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe

Dogfennau atodol:

- Tystiolaeth gan Gyngor Sir Penfro: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
- Tystiolaeth gan CALIN: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig)

5 Papurau i'w nodi

(12.50)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (iv) and (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(12.50)

7 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: ystyried y dystiolaeth
(12.50 – 13.00)

**8 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: trafod rhaglen waith yr
ymchwiliad**

(13.00 – 13.10)

(Tudalennau 30 – 31)

Dogfennau atodol:

- Amserlen y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

**9 Cyhuddiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru: trafod
canlyniad Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol Undeb Rygbi Cymru**
(13.10 – 13.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



WIR 06
Senedd Cymru | Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y
Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International
Relations Committee
Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon | Wales-Ireland relations
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg | Response from: Welsh Language Commissioner

16/02/2023

Annwyl Bwyllgor,

Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

Rwy'n awyddus iawn i godi ymwybyddiaeth aelodau'r Pwyllgor o gysylltiadau presennol rhwng fy swyddfa i ac Iwerddon a'r potensial sydd yna i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach er budd y Gymraeg a'r Wyddeleg fel ei gilydd. Amlinellir isod y cydweithio presennol sydd mewn dau faes o flaenoriaeth, sef hybu a hwyluso'r defnydd o ieithoedd swyddogol, a gwarchod a hyrwyddo enwau lleoedd yr ieithoedd hynny. Ar ddiwedd y llythyr hwn rhestrir dulliau ymarferol o ddatblygu ymhellach y cydweithio yn y meysydd hyn, a syniadau am ariannu prosiectau cydweithredu.

1. Cydweithio i amddiffyn a hyrwyddo hawliau ieithyddol

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Iaith Iwerddon, [An Coimisinéir Teanga](#), yn sgil Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003. Mae perthynas weithio agos wedi sefydlu rhyngom ers sefydlu Comisiynydd y Gymraeg yn 2012, â'r berthynas honno'n cael ei chefnogi a'i meithrin drwy Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith ([IALC](#)). Mae An Coimisinéir Teanga wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwn yn y gorffennol, wrth gwrs, a Chomisiynydd y Gymraeg yn ei dro wedi cyfrannu tystiolaeth i bwyllgorau Dáil Éireann a Seanad Éireann wrth iddynt graffu ar ddiwygiadau i'w deddf ieithoedd swyddogol yn ddiweddar. Mae diddordeb mawr wedi bod yn Iwerddon ym Mesur y Gymraeg a'i ddylanwad, a derbyniodd y Comisiynydd sawl gwahoddiad i annerch grwpiau amrywiol yno yn y blynyddoedd diwethaf – o swyddogion iaith a mudiadau pwysu i Gymdeithas y Bar. Roedd y teyrngedau personol a

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



dderbyniodd y swyddfa o Iwerddon, ynghyd â'r sylw cyhoeddus yn y wasg yno i farwolaeth y diweddar Gomisiynydd Aled Roberts, yn arwydd o'r gwerthfawrogiad sydd yno i'r ymdrechion hyn.

Ddiwedd 2021, daeth Deddf Ieithoedd Swyddogol ddiwygiedig i rym yn Iwerddon sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau arwyddocaol – yr amlycaf a'r mwyaf arwyddocaol yng nghyd-destun yr ymchwiliad hwn yw'r ffaith fod Iwerddon yn symud i system safonau iaith o dan ddylanwad y gyfundrefn yng Nghymru. Mae hyn yn tystio i bwysigrwydd rhannu arferion llwyddiannus rhwng llunwyr polisi a deddfwriaeth y ddwy wlad. Mae yna nifer o ddarpariaethau eraill yn y ddeddf y dylid olrhain eu llwyddiant a'u dylanwad yn agos, megis yr ymrwymiad y bydd 20% o'r bobl sy'n cael eu recriwtio i'r sector cyhoeddus a'r gwasanaeth sifil yn siaradwyr Gwyddeleg erbyn 2030.

Rydym yn naturiol yn cefnogi bod 'Diwylliant, Iaith a Threftadaeth' yn cael ei adnabod fel maes cydweithio yn y [Cynllun Gweithredu ar y Cyd 2021-25](#). Fodd bynnag, mae prif bwyslais yr adran hon yn bendant iawn ar fentrau celfyddydol a diwylliannol. Ceir cydnabyddiaeth bod angen 'parhau i weithio trwy ffrwd waith y Cyngor Prydeinig Gwyddelig ar ieithoedd lleiafrifol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu polisi ar gyfer ieithoedd brodorol a chydweithrediad yn y maes'. Wrth gwrs, mae Grŵp Gwaith Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn fforwm defnyddiol i ddod â Gweinidogion perthnasol ynghyd. Ond credwn fod lle i fwrw'r rhwyd yn ehangach a chynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill – gan gynnwys Comisiynwyr iaith annibynnol y ddwy wlad.

Dylid sicrhau bod iaith yn rhan greiddiol o'r maes blaenoriaeth Addysg ac Ymchwil yn ogystal er mwyn cryfhau sylfeini academaidd ymdrechion cynllunio ieithyddol yn y ddwy wlad. Rhaid sicrhau nad yw'r syniadau na'r arferion gorau mewn perthynas â chynllunio ieithyddol na gwarchod hawliau ieithyddol yn cael eu colli ym Môr Iwerddon.

Byddai'r Comisiynydd yn falch iawn o gyfrannu at y drafodaeth bwysig hon, wrth reswm. Mae'r berthynas ffrwythlon sy'n bodoli rhwng swyddfeydd y Comisiynwyr ynghyd â strwythur Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr iaith yn darparu sylfaen bosibl ar gyfer cydweithio pellach pe bai modd sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol i hwyluso'r gwaith. Er enghraifft, rydym yn gobeithio trefnu cynhadledd ryngwladol i Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr iaith yng Nghymru yn 2024 (yn ddibynnol ar sicrhau nawdd) – buasem yn agored iawn i drafod posibiliadau cydweithio a sicrhau bod themâu a digwyddiadau'r gynhadledd yn gyfrwng i gefnogi'r berthynas strategol rhwng Iwerddon a Chymru.



Mae gan Iwerddon draddodiad i eiddigeddu wrtho o ddeddfu i warchod enwau lleoedd. Yn dilyn derbyn cyngor arbenigol bydd y Gweinidog dros y Gaeltacht yn rhagnodi ffurfiau safonol enwau Gwyddelig mewn rheoliadau. Mae'r drefn hon yn golygu nad oes amwyster ynghylch ffurf safonol a swyddogol enw lle na pha ffurfiau y mae'n rhaid eu harddangos ar arwyddion a'u mabwysiadu mewn cyd-destunau swyddogol.

Mae hyn yn dra gwahanol i'r drefn bresennol yng Nghymru lle nad oes grym statudol i argymhellion y Comisiynydd. Nid oes deddf i warchod enwau dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru nac i gymell sefydliadau cyhoeddus i ddilyn cyngor y Panel Safoni Enwau Lleoedd. Byddai sefydlu trefn lle mae disgwyliad i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru arddel ffurfiau safonol a argymhellir gan y Comisiynydd yn gweddnewid y sefyllfa bresennol. Byddai'n arwain at sefyllfa lle byddai ffurfiau Cymraeg safonol yn cael eu harddel a'u hyrwyddo a byddai'n lleihau dryswch, dyblygu ac anghysondeb mewn data mapio a chyfeiriadau. Byddai hefyd yn arbed amser ac adnoddau awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn gorfod ymdrin â sefyllfa o ansicrwydd ac anghytundeb ynghylch pa ffurfiau y dylent eu harddel.

Mae gan Iwerddon hefyd draddodiad i eiddigeddu wrtho o gefnogi gwaith ymchwil i enwau lleoedd. Sefydlwyd y Placenames Branch yn 1956 er mwyn gwneud gwaith ymchwil manwl i enwau lleoedd a darparu argymhellion awdurdodol ynghylch pa ffurfiau y dylid eu mabwysiadu. Mae'r argymhellion hyn, ynghyd â'r cyfoeth o waith ymchwil sy'n gefn iddynt, ar gael i'r cyhoedd drwy Logainm.ie | Placenames Database of Ireland ers 2007, adnodd a ddatblygwyd gan Brifysgol Dinas Dulyn dan nawdd yr Adran dros Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau. Mae'n adnodd hynod ddeniadol a rhyngweithiol sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio am lefydd ar fap, yn cynnwys cofnodion a recordiadau sain sy'n deillio o waith maes, ac yn cefnogi defnyddwyr i ynganu'r enwau'n gywir. Byddai cael adnodd fel hyn yn trawsnewid ymdrechion i safoni a hyrwyddo'r defnydd o ffurfiau Cymraeg safonol yng Nghymru ac rwy'n hyderus y byddai ein cydweithwyr yn Iwerddon yn awyddus iawn i rannu eu harbenigedd a'u profiad â ni.

Â Chytundeb Cydweithio'r Llywodraeth a Phlaid Cymru yn cydnabod yr angen i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg, byddai'n amserol iawn i Lywodraeth Cymru graffu eto ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni yn Iwerddon a'r ddeddfwriaeth a'r buddsoddiad sy'n gefn i'r gwaith enwau lleoedd. Byddai cydweithio ym maes enwau lleoedd gan gyfnwied gwybodaeth, datrysiadau technoleg ac ymchwil yn rhan o'r cynllun cyd-weithredu nesaf hefyd yn creu posibiliadau cyffrous o gydweithio ar draws tri o'r chwech maes blaenoriaeth presennol (Masnach a Thwristiaeth, Addysg ac Ymchwil, Diwylliant, Iaith a Threftadaeth).




3. Argymhellion i gryfhau'r cydweithio i'r dyfodol

Buaswn yn awyddus i fod yn rhan o drafodaethau ynghylch sut y gellid datblygu ymhellach y cydweithio rhwng Cymru ac Iwerddon yn y meysydd o flaenoriaeth uchod. Yn benodol, carwn drafod:

- Strwythurau posibl i gefnogi fforwm cynllunio ieithyddol rhwng y ddwy wlad.
- Sicrhau bod iaith, ac yn benodol cynllunio ieithyddol, yn cael ei ystyried yn faes trawsbynciol ac yn rhan greiddiol o'r maes blaenoriaeth Addysg ac Ymchwil.
- Yr angen i graffu ar ddeddfwriaeth Iwerddon mewn perthynas ag enwau lleoedd.
- Y potensial i Gymru elw ar arbenigedd Iwerddon ym maes enwau lleoedd a'r posibiliadau cyffrous fyddai i rannu adnoddau a datrysiadau rhwng y ddwy wlad.
- Posibiliadau cydweithio pellach drwy Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, yn benodol wrth gynllunio cynhadledd yng Nghymru yn 2024.

Yr gywir,



Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

WIR 07

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol |
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon | Wales-Ireland relations

Ymateb gan: Conswl Cyffredinol Iwerddon | Response from: Consulate General of Ireland

1. The Consulate General of Ireland is very pleased that the Senedd's Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee has decided to undertake an inquiry into Wales-Ireland relations. The engagement of elected representatives adds further depth and breadth to the close relationship that exists between our two Governments. The observations that follow are submitted in response to the Committee's consultation and invitation to make written submissions.

Broader context of Wales-Ireland Relations

2. Ireland and Wales are the closest of neighbours, and we have a strong and positive relationship built on age-old connections and a deep cultural understanding. Our modern and vibrant relationship has grown from historic links, common heritage and culture, and close people-to-people, business, cultural and sporting connections.
3. The re-establishment of the Consulate-General of Ireland in 2019 was a reaffirmation of Ireland's commitment to deepen and strengthen this naturally warm and close relationship between Ireland and Wales. It was part of Ireland's ambitious Global Ireland programme, which aims to double Ireland's impact around the world by 2025, as well as demonstrating Ireland's commitment to strengthening the British Irish relationship following the UK's departure from the EU. It also forms part of a wider programme of investment in Ireland's footprint in Great Britain in recent years, including an enhanced whole-of-Government presence in London, the opening of the Consulate General for the North of England in 2021, and the establishment of an Enterprise Ireland Office in Manchester in 2019.
4. The UK's departure from the EU has already brought change and it will undoubtedly alter and reshape the Ireland-Wales relationship in the coming years. Joint participation in EU programmes has been a positive force for the relationship between Ireland and Wales. Over the last twenty-five years, the Ireland Wales programme has fostered the creation of uniquely strong and focused connections across the Irish Sea at local and sectoral levels. Ireland and Wales are committed to working together to sustain the networks which have emerged through this programme.
5. This year marks the 25th anniversary of the Good Friday Agreement. In addition to celebrating what was a transformative moment for everyone on the island of Ireland, it is timely to recall the importance of Strand Three of that agreement for the East-West institutional relationship. Wales and Ireland continue to work side-by-side in the framework of the British-Irish Council and our parliamentarians meet regularly through the British-Irish Parliamentary Assembly. All three strands of the Agreement are vitally important and they are designed to be mutually reinforcing. We want to see each of them working to their full capacity to deliver for all of the people across these islands.

The Ireland-Wales Shared Statement and Joint Action Plan (2021-2025)

6. The Ireland-Wales Shared Statement and Joint Action Plan 2021-2025 is a key pillar in our bilateral relationship and sets out our commitment to deepening cooperation. It was launched by then Minister for Foreign Affairs, Simon Coveney TD and First Minister Mark Drakeford MS in March 2021. It was the first time that Ireland and Wales published a joint document of this nature.
7. The Joint Action Plan includes forty-five actions across six areas of cooperation for which the Welsh Government has devolved responsibility, namely: political and official engagement; climate action and sustainability; trade and tourism; education and research; culture, language and heritage; and communities, diaspora and sport. Delivery has been led by the Consulate General of Ireland in Cardiff and the Welsh Government Office in Dublin.
8. Delivery of the Joint Action Plan is reviewed annually at ministerial level. To date, implementation has been strong and dynamic. As of late 2022, almost 80% of the commitments made have been either fully completed (10%) or well advanced (70%). Early progress has been made on the remaining 20% of actions.
9. One of its key actions is a commitment to hold an annual Ireland Wales Forum to bring together political, economic and broader stakeholders to build relationships, to reflect on ongoing collaboration and to identify opportunities for further cooperation. The inaugural Forum took place in Cardiff in October 2021 and was an excellent platform to exchange policy perspectives, share learning and build collaboration to strengthen the Ireland-Wales relationship, in particular in the areas of sustainability and green recovery, trade promotion, economic development, climate action and energy policy.
10. The second Ireland-Wales Forum in Dublin and Cork was in October 2022. Chaired jointly by then Minister for Foreign Affairs, Simon Coveney TD and First Minister, Mark Drakeford MS, it involved bilateral meetings as well as a wider roundtable, and included a visit to the National Museum, Collins Barracks, to learn more about the partnership between the National Museums of Ireland and Wales. Discussions focused on bilateral relations, trade cooperation and economic development, and renewable energy. Political discussions were informed by practical engagement with key stakeholders. Participating ministers visited MaREI, the Science Foundation Ireland Centre for Energy Climate and the Marine, where they participated in a roundtable discussion convened by Cork Chamber with companies working on renewable energy.
11. Ireland looks forward to the third annual Ireland-Wales Forum which will take place later this year in Wales. Irish and Welsh officials will work in close cooperation to agree the Forum's programme and agenda.
12. Demonstrating the strong progress and collaborative approach to date, other positive outcomes of the Shared Statement and Joint Action Plan include:
 - High-level meetings between then Taoiseach Micheál Martin and the First Minister at British Irish Council Summits, as well as their joint participation in an Enterprise Ireland trade event in Cardiff in 2021.

- Meetings between the then Tánaiste, Leo Varadkar and Economy Minister, Vaughan Gething; between Higher Education Minister, Simon Harris and Education Minister Jeremy Miles; and between Minister for Disabilities, Equality, Integration and Youth, Roderic O’Gorman and Minister for Social Justice, Jane Hutt.
- A visit to Cardiff by Jennifer Carroll MacNeill, Minister of State at the Department of Finance with special responsibility for Financial Services, Credit Unions and Insurance is planned for St. Patrick’s Day 2023.
- Commencement of an 11-month secondment of Welsh Government official to the Irish Abroad Unit of the Department of Foreign Affairs from May 2022 to build shared learning on diaspora affairs;
- New language legislation in Ireland Official Languages (Amendment) Act 2021 informed by Welsh approach to language policy;
- Irish Sea Symposium organised by Welsh Government with participation from Irish officials and ongoing engagement with INTERREG partners;
- Inaugural ‘St David’ lecture, the Dewi Padraig Dialogue, on approaches to language policy in Dublin City University in May 2022;
- Excellent ongoing collaboration between Coláiste Lurgan and Urdd Gobaith Cymru;
- Visit of the Irish naval vessel LÉ Róisín to Cardiff in July 2022 celebrating strong bilateral ties and maritime connections;
- Continued engagement with the Office of the Future Generations Commissioner for Wales, including a visit by Future Generations Commissioner Sophie Howe to Dublin in October 2022.
- Successful partnerships between the Welsh Government and cultural organisations in Ireland to foster cultural connections, including support of the collaboration between the National Museums of Ireland and Wales.

Opportunities in developing parliamentary relations between the Senedd and Oireachtas

13. The British-Irish Parliamentary Assembly (BIPA) provides a forum for regular engagement between the Senedd and the Oireachtas. The Consul General of Ireland was very pleased to have the opportunity to meet the Senedd’s BIBA Members before its plenary in Farnham, Cavan in October 2022. As then Taoiseach, Micheál Martin noted at the opening of the plenary, the engagement of parliamentarians helps “build understanding, develop common objectives and, crucially, build relationships that will endure into the future – supporting renewed and positive British-Irish relations.”
14. Closer cooperation between the Senedd and the Oireachtas can only make a positive contribution to Ireland-Wales relations. As set out in the Joint Action Plan, we are committed to supporting the Senedd and the Oireachtas to explore opportunities for exchanges on shared challenges. The Consulate General of Ireland will continue to engage with Members of the Senedd with this in mind and stands ready to support efforts for closer parliamentary relations.

Concluding Observations

15. Ireland and Wales have always enjoyed a strong and warm bilateral relationship. Our intertwined history can be traced all the way back to myths and legends. It is expressed in our Celtic heritage and languages and by our people who have moved freely between our two countries and continue to do so for reasons of family, education, work and sport. We

continue to have strong economic and trade links. In our bilateral relations with Wales, Ireland's goal is to ensure that we remain close neighbours and friends.

Consulate General of Ireland, Cardiff, February 2023

WIR 05

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon | Wales-Ireland relations

Ymateb gan: Cyngor Sir Benfro | Response from: Pembrokeshire County Council

Cyflwyniad

1. Mae Cyngor Sir Penfro yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r Ymchwiliad hwn, gan fod gennym hanes cadarn o weithio gyda llywodraeth leol a sefydliadau eraill yn Iwerddon er budd y ddwy wlad. Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i tua 125,000 o bobl sy'n byw yn Sir Benfro, a llawer mwy sy'n ymweld â'n sir.
2. Mae ein gwasanaethau'n cynnwys gweithgarwch i hybu economi Sir Benfro, sgiliau a chyfleoedd bywyd ein pobl ifanc, ein treftadaeth ddiwylliannol, a'n hamgylchedd. Ym mhob un o'r meysydd hyn, rydym wedi cydweithredu ac wedi elwa ar weithio gyda'n cydweithwyr yn Iwerddon. Nod ein hymdrechion yn hyn o beth yw nid yn unig gwella sefyllfa Sir Benfro heddiw ond gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol gwell.
3. Oherwydd ein lleoliad, cyfleoedd busnes a chysylltiadau trafndiaeth drwy Ddoc Penfro ac Abergwaun, ac er gwaethaf Brexit, erys Iwerddon yn bwysig i Sir Benfro.

Cysylltiadau Cymru-Iwerddon ar ôl Brexit

4. Tra bod gan Gyngor Sir Penfro drefniant gefeillio gyda Chyngor Contae Loch Garman, a bod dinas Tyddewi wedi'i gefeillio â Nás na Ríogh, Contae Chill Dara, mae'r rhan fwyaf o'r cydweithio sydd wedi digwydd rhwng Cyngor Sir Penfro ac Iwerddon ers 1996 wedi bod o ganlyniad yr amrywiol raglenni "Interreg" Iwerddon Cymru a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae Coleg Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a Fforwm Arfordirol Sir Benfro hefyd wedi cymryd rhan yn y rhaglenni hyn.
5. Un canlyniad o Brexit felly fu colli rhan fwyaf arwyddocaol y seilwaith a gefnogodd y cydweithio cyfoethog a fu rhwng Cymru a de ddwyrain Iwerddon rhwng 1996 a 2020. Hyd yn hyn, nid oes dim byd sylweddol wedi'i roi ar waith i gymryd ei le ar lefel weithredol. O ganlyniad, wrth i raglen Iwerddon-Cymru 2014-2020 ddod i ben (bydd y prosiectau terfynol yn cael eu cwblhau eleni) mae risg,

neu hyd yn oed tebygolrwydd, y bydd llawer o'r cydberthnasau sydd wedi'u sefydlu rhwng sefydliadau Cymreig a Gwyddelig trwy'r rhaglen yn dod i ben.

6. Mae Llywodraeth Cymru, er clod iddi, wedi ceisio rhoi strwythurau amgen ar waith i gynnal cysylltiadau rhwng Cymru a'r Iwerddon, yn benodol Iwerddon-Cymru, Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 a drafodir ymhellach isod, a'r gweithgareddau sy'n deillio o hyn. Bu cyfres o symposia hefyd o dan faner Cymru Ystwyth, ac yn yr olaf, ar 24 Tachwedd 2022, cynigiwyd "Fframwaith Anffurfiol ar gyfer Cydweithredu ar draws Gofod Môr Iwerddon". Fodd bynnag, nid yw ei statws yn glir, er enghraifft p'un a yw'n gynnydd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ac yr ymgynghorir â ni yn ei gylch cyn ei fabwysiadu, neu ai cysyniad academaidd yn unig ydyw sy'n nodi un syniad o sut y mae cydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon yn gallu bodoli ar ôl Brexit.
7. O ganlyniad, ar wahân i'r Cyd-ddatganiad, mae gwagle bellach yn y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon ac felly nid yw'n glir o gwbl sut y mae mentrau trawsffiniol yn mynd i weithio, ac eithrio ar fenter sefydliadau unigol yng Nghymru ac yn Iwerddon.
8. Mae yna hefyd faterion sy'n ymwneud â Brexit sydd â dimensiwn Gwyddelig, ac mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i roi'r atebion angenrheidiol ar waith i leihau gwrthdaro mewn masnach drawsffiniol. Y pennaf ymhlith y rhain mae mater y Model Gweithredu Targed ar gyfer ffin Prydain Fawr, sydd â goblygiadau i swyddogaeth iechyd porthladdoedd Cyngor Sir Penfro. Gallai hwn fod yn faes lle gallai atgyfnerthu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon helpu i weithredu cynnydd.

Y dull presennol o ymgysylltu dwyochrog rhwng llywodraethau Cymru ac Iwerddon ac a yw'n addas i'r diben ar ôl Brexit

9. Nid yw hwn yn fater y gall llywodraeth leol wneud sylwadau arno.

Iwerddon-Cymru, Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 fel dull o ymgysylltu rhyngwladol

10. Credwn fod y Cyd-ddatganiad yn darparu sylfaen gref ar lefel genedlaethol ar gyfer ymgysylltu a chydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol, a gallai weithredu fel model ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, er ei fod yn darparu strwythurau ar lefel lywodraethol, mae'n methu â chynnig unrhyw gefnogaeth wirioneddol i sefydliadau Cymreig sy'n dymuno hybu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.
11. Er enghraifft, dim ond un cyfeiriad sydd yn y Cyd-ddatganiad at awdurdodau lleol. Mae hwn yn ymddangos ar dudalen 17, ac yn datgan "Byddwn ... yn mynd ati ar y cyd i nodi a hyrwyddo cysylltiadau presennol, fel trefi, ysgolion a chlybiau chwaraeon sydd wedi'u gefeillio, a chlybiau chwaraeon, trwy gyfeirio cymunedau â diddordeb at gymorth priodol gan awdurdodau lleol a chymorth o fath arall."
12. Ni all Cyngor Sir Penfro gynnig y gefnogaeth y mae'r ymrwymiad hwn yn ei awgrymu. Nid yw'r Awdurdod yn darparu cymorth i gymdeithasau gefeillio er enghraifft, oherwydd nid oes gennym y capasiti na'r ddarpariaeth gyllidebol i

wneud hynny. Felly, nid oes unrhyw sylwedd i'r ymrwymiad a roddir i sefydliadau lleol sydd â diddordeb mewn cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon yn y Cyddatganiad.

Ariannu prosiectau cydweithredu a chydweithio yn y dyfodol rhwng Cymru ac Iwerddon

13. Y prif gyfle ariannu yr ydym yn ymwybodol ohono yw drwy raglen Cymru Ystwyth, ac mae hyn wedi'i gyfyngu i £5,000 at ddiben hwyluso gweithgarwch sy'n meithrin partneriaethau trawsffiniol a rhyngwladol ac yn cynyddu cydweithrediad. Ein dealltwriaeth o'r rhaglen yw ei bod yn bennaf i helpu i sefydlu cysylltiadau newydd, yn hytrach na chynnal cysylltiadau sy'n bodoli eisoes. Ar ôl colli Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon-Cymru yr UE, a rhoi'r partneriaethau a gynhaliodd mewn perygl, rydym yn cwestiynu ai dyma'r ffocws cywir ar gyfer Cymru Ystwyth.
14. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyllid sydd ar gael yn hawdd i ddatblygu cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i'r cam ffurfio partneriaeth. Roedd y Symposiwm ar 24 Tachwedd y cyfeiriwyd ato uchod yn cynnwys cyflwyniad i raglen PEACEPLUS 2021-2028 yr UE, sydd â'r bwriad o hybu a chryfhau'r broses heddwch a chymod yng Ngogledd Iwerddon a siroedd gororau'r Iwerddon. Deallwn fod posibilrwydd y gallai'r rhaglen hon ariannu gweithgareddau cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon, ar yr amod bod budd y gweithgareddau hyn yn grynoedig i faes y rhaglen PEACEPLUS, a'u bod yn gyson â chwmpas y rhaglen.
15. Er y gallai hyn gynnig cyfle i Gymru gyfrannu at broses heddwch Iwerddon a Gogledd Iwerddon, mae'n gyfyng iawn o ran ariannu gweithgarwch trawsffiniol a allai fod o fudd i Gymru.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon

16. Nodwn fod y Cyddatganiad yn cynnwys ymrwymiad i "Cefnogi a hyrwyddo blaenoriaethau polisi ein cysylltiad cyffredin â sectorau gwaith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, sef cynllunio gofodol cydweithredol; y diwydiannau creadigol; iaith; cynhwysiant digidol; y blynyddoedd cynnar; ynni; yr amgylchedd; tai; camddefnyddio sylweddau; cynhwysiant cymdeithasol a thrafnidiaeth." Yr unig un o'r rhain sy'n ymddangos yn anghydnaws yw tai, nad ydym yn gweld fod ganddo ddimensiwn trawsffiniol, o leiaf nid lle mae ffin forol rhwng dwy wlad.
17. Tair blaenoriaeth Rhaglen Gydweithredu Iwerddon-Cymru 2014-2020 oedd Arloesi Trawsffiniol; Addasu Môr Iwerddon a Chymunedau'r Arfordir i Newid Hinsawdd; ac Adnoddau Diwylliannol a Naturiol a Threftadaeth.
18. Roedd y Fframwaith Anffurfiol ar gyfer Cydweithredu ar draws Gofod Môr Iwerddon a gynigiwyd yn y Symposiwm ar 24 Tachwedd 2022 yn seiliedig ar dair blaenoriaeth, sef annog Arloesedd ar draws Gwyddorau Bywyd; Twf Glas Cynaliadwy; a Chymunedau a Diwylliant. Hysbyswyd y Symposiwm bod y rhain wedi'u nodi ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

19. Mae elfennau sylweddol yn gyffredin rhwng y tri asesiad hyn o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu. Rydym o'r farn y gall cydweithredu gael ei strwythuro'n ddefnyddiol o gwmpas blaenoriaethau'r Fframwaith Anffurfiol, h.y. Arloesedd (ni fyddem yn nodi gwyddorau bywyd yn benodol gan y gellir dehongli hynny fel rhoi mwy o bwysau i'r ddisgyblaeth honno nag eraill), Twf Glas Cynaliadwy, a Chymunedau a Diwylliant.

Cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau seneddol rhwng y Senedd a'r Oireachtas

20. Nid yw hwn yn fater sy'n ymwneud yn uniongyrchol â llywodraeth leol Cymru.

21. Rydym yn nodi bod mater datblygiad cynaliadwy yn ganolog i'r Cyd-ddatganiad . Dylai'r nod a'r her o sicrhau sero net erbyn 2050 yng Nghymru ac Iwerddon fel ei gilydd roi digon o gyfle i seneddwyr y ddwy wlad drafod.

WIR08

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol |
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon | Wales-Ireland relations
Ymateb gan: CALIN | Response from: CALIN

Inquiry into Wales-Ireland relations

Wales-Ireland relations post-Brexit

CALIN is an INTERREG-funded programme that launched in 2017 through a collaboration between six universities across Ireland and Wales. Together, CALIN partners have developed a strong relationship and worked together to build a network that is driving innovation in over 190 SMEs. The solid foundations and strength of the network has enabled CALIN to continue to grow and work collaboratively with little disruption post-Brexit notwithstanding the impact of Covid-19 on some research activity.

Current activity within CALIN is supported by the INTERREG programme which is due to end in August this year. There is clear motivation from CALIN partners and stakeholders to continue to collaborate beyond this date with an ambition to work under a similar mechanism moving forward. However, with no direct replacement for INTERREG funding, a significant risk of a post-funding hiatus exists if a CALIN bridge isn't maintained between Ireland and Wales. As such, the CALIN team have been proactively engaging with both Welsh and Irish governments to develop a sustainable route forward. A route that would allow CALIN partners and stakeholders to continue to drive life science innovation in Irish and Welsh SMEs both within and beyond the limits of the INTERREG regions.

Current approach to bilateral engagement between the Welsh and Irish governments and whether it is fit for purpose post-Brexit

Since the official opening of the Ireland's Consulate General in Wales in 2021, the CALIN team have engaged directly with both the previous and current Irish Consul and have recently met with the Irish ambassador to the UK to discuss the CALIN programme. The CALIN team are also actively engaged with the Welsh Government office in Ireland. Through this engagement CALIN directors were invited to participate in Government-lead workshops (Irish Sea Symposium series) providing the opportunity for Government officials to hear directly from those involved in the field. We see this as an effective approach to bilateral engagement and would like to see this further developed through future opportunities to present successful bilateral activities to ministers and engage with parliament.

The [Ireland-Wales Shared Statement and Joint Action Plan \(2021-2025\)](#) as an approach to international engagement

The [Ireland-Wales shared statement and joint action plan 2021 to 2025](#) highlights CALIN in delivery industrial collaboration in the Irish and Welsh life-sciences industries. CALIN is leading the Health & Life Science Innovation theme in determining proactive strategies for taking

forward a new phase of future cooperation across the Irish and Celtic seas at the request of the Welsh government. As such, on 28th February 2023, CALIN hosted an Ireland-Wales event that gave stakeholders the opportunity to voice their thoughts on the future approach to international engagement. Discussion within the meeting echoed the statements made within the action plan and further highlighted how important, yet how rare it is for HEIs to have a group of researchers already in place and able to support industry on demand, without the need for prolonged funding applications. It was agreed that this has underpinned an innovation pipeline that has helped to sustain and grow the local life science SME community in Ireland and Wales.

The funding of future cooperation and collaborative projects between Ireland and Wales

For over 6 years CALIN has been enabling world-leading HEI's expertise to deliver economic benefit for SMEs in the Life Science sector. CALIN has united HEIs, SMEs and health and social care services to provide a strong, dynamic cross-border and inter-disciplinary knowledge base that supports economic and scientific Life Science developments in Ireland and Wales. By closely linking R&D, innovation, commercial development, and the provision of high-value jobs, CALIN's smart specialisation approach has established a platform for industry-driven research, development and innovation to promote value creation and strengthen the Life Science sector, an essential generator of wealth and prosperity in the regions.

However, with no direct replacement for INTERREG funding, the CALIN team are actively seeking new opportunities to ensure the continuation of this well-established network. CALIN has considered several opportunities such as engaging with PEACEPLUS and driving investment from large industry stakeholders. Investment by large companies into Wales is a challenge but Ireland have attracted this kind of investment from large industries such as ICON in Dublin. CALIN allows stakeholders in Wales to access these larger companies in Ireland and this will be a key part of CALIN's future.

Furthermore, CALIN is aware of potential opportunities with future joint UKRI-SFI Co-Centre Programmes. The Co-Centre Programme has been established as a new strategic collaborative partnership between Ireland, Great Britain and Northern Ireland, co-funded by industry, to consolidate research activities across higher education institutes in co-hosted centres. The Co-Centre model is essentially an extension of the CALIN model that CALIN partners, where new partners in Northern Ireland (and possibly North West England and Scotland) would join the existing network to further strengthen the research base and offering to industry in driving innovation. The first Co-Centre call has been launched (<https://www.ukri.org/opportunity/co-centre-programme-2022-collaboration-for-transformative-research-and-innovation/>) and CALIN partners understand that there may be a future Co-Centre call in the health area to which they are ideally placed to respond, and would welcome the opportunity to discuss CALIN and relevant Co-Centre opportunities with UKRI.

However, with the CALIN programme due to end in August this year, there is a clear need for bridging funding ideally from both Welsh and Irish governments ahead of the development of future centres and through which CALIN would host a virtual office to maintain continuity as we move forward to next phase.

Priority areas for cooperation between Ireland and Wales

The Ireland Wales workshop recently held by CALIN allowed stakeholders to suggest key areas of important economic and scientific growth within the Life Science sector that should be prioritised for future cooperation between Ireland and Wales sector. The key areas identified were: Advanced therapeutics; diagnostics (including precision medicine and genomics); Regenerative medicine; Population-level research; Systems approaches (digital health, big data & AI); Preventative medicine (including healthy ageing) and One Health.

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon